PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU PLANT

DYDD LLUN, 6 AWST 2018

Yn bressenol: Cynghorwyr Hinchey, Lister, Taylor a/ac Williams

1 : ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR.

PENDERFYNWYD - Penodi'r Cynghorydd Goodway yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi hwn ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau.

*(Y Cynghorydd Graham Hinchey yn y Gadair)*

2 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Susan Elsmore

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

4 : CYLCH GORCHWYL

Nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

*'Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor'.*

5 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes canlynol oherwydd petaent yn bresennol ac oherwydd natur y busnes, datgelid gwybodaeth iddynt a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y diffinnir isod: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r Awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU PLANT

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei gynnull i ystyried y rhestr hir o ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Oedolion.

Adolygodd y Pwyllgor y pedwar cais a dderbyniwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyried sut yr oedd yr ymgeiswyr yn bodloni'r cymwysterau hanfodol o'r

Fframwaith Cymwysterau Ymddygiad a'r proffil rôl; a dethol ymgeiswyr i argymell yr aent ymlaen i'r Ganolfan Asesu.

PENDERFYNWYD –

(1) cyflwyno ymgeiswyr 1, 2 a 3 i'r Ganolfan Asesu;

(2) y Pwyllgor i ailymgynnull ar gyfer 20 Medi 2018 am 10.00am er mwyn ystyried yr adborth o'r Ganolfan Asesu a chytuno ar ba ymgeiswyr y dylid eu rhoi ymlaen i gael cyfweliad ar 4 Hydref 2018.

7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 20 MEDI 2018 AM 10.00 AM

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm